

## Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cynhaliwyd 11 o gyfarfodydd misol ac un cyfarfod arbennig.

Mae'r gwaith o gynnal a chadw'r Mynwentydd a Llwybrau Cyhoeddus yn parhau. Yn dilyn gwariant gan Gyngor Gwynedd ar y llwybr ger Canolfan Golan, penderfynwyd ychwanegu'r llwybr at y rhestr o lwybrau sydd i'w torri. Cynhaliwyd arolwg iechyd a diogelwch o'r Mynwentydd.

Derbyniwyd 23 o geisiadau cynllunio -

|                       |   |
|-----------------------|---|
| Cwm Pennant           | 5 |
| Golan                 | 5 |
| Garndolbenmaen        | 6 |
| Pentrefelin a Treflys | 4 |
| Bryncir               | 2 |
| Prenteg               | 1 |

Ni wrthwynebwyd rhan fwyaf o'r ceisiadau. Mynegwyd pryder am leoliad un sied amaethyddol a braf yw nodi fod Cyngor Gwynedd wedi ystyried y sylwadau, a bod yr ymgeisydd wedi newid y lleoliad.

Cafwyd cyflwyniadau yn ystod y flwyddyn gan -

- Cymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen
- Roland Evans, Uwch Reolwr Economi a Chymunedol Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r Enwebiad Safle Treftadaeth.

Mae'r Cyngor Cymuned yn rhagweithiol wrth ymdrin â materion, gall effeithio'r trigolion yn y gymuned.

Yn ystod y flwyddyn, mynegodd y Cyngor Cymuned ei barn ynglŷn â'r materion canlynol -

Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd - Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn cynnig cyfuno Cymunedau Beddgelert, Llanfrothen, Prenteg a Ward Tremadog. Rhoddodd y Comisiwn yr enw Porthmadog Tremadog i'r ward etholiadol arfaethedig. Roedd y Comisiwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer enwau amgen.

Awgrymodd y Cyngor Cymuned yr enw Glaslyn. Mae'r Comisiwn yn ei adroddiad terfynol a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2018, yn nodi ei bod am roi'r enw yma i'r Ward.

Amser Agor Meddygfeydd - Derbyniwyd cwynion gan drigolion lleol, fod y Meddygfeydd yn cau yn ddirybudd oherwydd hyfforddiant. Cysylltwyd gyda'r Meddygfeydd lleol i'w holi am eu dulliau o gyfathrebu gyda'r cleifion.

### Rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan

Mae'r rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Heddlu Cymru. Deallwyd fod y cynllun yn dod i ben. Penderfynodd y Cyngor gysylltu gyda'r Aelodau Seneddol lleol, Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad, Y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru i ddatgan siom fod rhaglen mor safonol yn dirwyn i ben. Braf oedd cael clywed y byddai'r arian yn parhau am 2019/20.

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd nifer o ddogfennau'r Cyngor i'r Archifdy yng Nghaernarfon.

Mae dau o'r Cyngorwyr yn cynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Rhanbarth Unllais Cymru.

Mae un o'r Cyngorwyr ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gorlan.

Sefydlwyd safle we'r Cyngor. Y cyfeiriad yw [www.dolbenmaen.cymru](http://www.dolbenmaen.cymru).